

# Cynllun Hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru 2022/2023

## Cefndir a Rhagarweiniad

Mae'n arfer orau i bersonél PPC gael:

Gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o:

- y rheoliadau a'r marchnadoedd sy'n gysylltiedig â phensiynau;
- cyd-fuddsoddi Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol; a
- cyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Lluniwyd cynllun hyfforddiant y Bartneriaeth yn atodol at gynlluniau hyfforddiant cyfredol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd anghenion hyfforddiant ar lefel leol yn dal i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol, tra bydd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau'r Bartneriaeth ynghylch cyfuno cronfeydd.

Dylai staff y Bartneriaeth fagu gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol i sicrhau y medrant gyflawni eu dyletswyddau fel y bônt yn gysylltiedig â'r Bartneriaeth.

Dylai'r staff hefyd fod yn ymwybodol o fframwaith y Bartneriaeth, ei chredoau, ei pholisïau a'i matrices llywodraethu, ynghyd â'r broses benderfynu a'r drefn o gofnodi penderfyniadau.

Awgrymir bod staff newydd y Bartneriaeth yn cwblhau hyfforddiant cyflwyno ffurfiol i gyrraedd y lefel o wybodaeth a nodir uchod. Yn dilyn hyfforddiant cyflwyno, mae disgwyl i staff gynnal eu dealltwriaeth o'r eitemau a nodir uchod, gan gwblhau unrhyw hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen.

I gynorthwyo staff y Bartneriaeth, bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu sesiynau hyfforddiant chwarterol a fydd yn ymdrin â'r prif feysydd megis buddsoddi, gweinyddu, anghenion rheoleiddio, canllawiau'r Llywodraeth a datblygiadau'r farchnad. Noder y bydd yr Awdurdod Lletya yn cadw cofnod dan y cynllun hyfforddiant a fydd yn cynnwys manylion cyfredol o'r holl hyfforddiant y mae staff y Bartneriaeth wedi'i gwblhau, a'r hyfforddiant y bwriedir ei gynnal yn y dyfodol agos.

Yn bennaf, bydd digwyddiadau hyfforddiant y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar fodloni anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor; fodd bynnag, anogir yr Awdurdodau Cyfansoddol i wahodd Cadeiryddion eu Pwyllgorau Pensiynau hwythau, yn ogystal â Chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiynau, os credant y byddai'r hyfforddiant o fudd i'r unigolion hynny.

Mae gan y Bartneriaeth Bolisi Hyfforddiant penodol ac fe ellir ei weld ar wefan PPC. Mae'r polisi yn rhoi rhagor o fanylion ar sut mae PPC yn ymdrin â hyfforddiant a datblygiad.

## Hyfforddiant Unigol

Mae'n bwysig bod unigolion yn meddu ar lefel 'briodol' o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w dyletswyddau o fewn y Bartneriaeth.

Yr arfer orau yw bod unigolion yn adolygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain bob blwyddyn o leiaf, ac ymgymryd â dysgu pellach ar gyfer unrhyw feysydd a nodwyd fel rhai sydd angen sylw neu ddatblygiad pellach.

## Hyfforddiant 2022/23

Rydym wedi nodi isod restr o bynciau hyfforddi y bydd yr Awdurdod Lletya yn eu trefnu yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Mae'r pynciau a amlinellir isod yn seiliedig ar flaenoriaethau amserol cyfredol WPP ac o ddadansoddiad o holiadur gofynion hyfforddi WPP/ymatebion asesu, a gwblhawyd gan aelodau'r Cydbwyllgor Llywodraethu ('CBLI') a Gweithgor Swyddogion ('GS'). Mae'n bosibl y gallai fod newidiadau i aelodau ar y Pwyllgorau Pensiwn unigol yn dilyn etholiadau cyngor ym mis Mai 2022 ac mae hyn hefyd wedi bod yn ffactor wrth bennu pynciau hyfforddi eleni.

Pwnc	Dyddiad
<b>Gwybodaeth am Gynnyrch</b>	
<ul style="list-style-type: none"><li>Dosbarthiadau Asedau'r Farchnad Breifat - rôl y Dyranwr</li></ul>	Ch1
<ul style="list-style-type: none"><li>Ecwitiâu Cynaliadwy Gweithredol</li></ul>	Ebrill - Mehefin 2022
<b>Gwybodaeth am y Pŵl</b>	
<ul style="list-style-type: none"><li>Llywodraethu a Gweinyddu</li></ul>	Ch2
<ul style="list-style-type: none"><li>Rolau a Chyfrifoldebau</li></ul>	Gorffennaf - Medi 2022
<b>Buddsoddi Cyfrifol</b>	
<ul style="list-style-type: none"><li>Beth mae RI yn ei olygu i'r WPP</li></ul>	Ch3
<ul style="list-style-type: none"><li>Cod Stiwardiaeth ac Adroddiadau TCFD</li></ul>	Hydref - Rhagfyr 2022
<b>Deall y Farchnad</b>	
<ul style="list-style-type: none"><li>Cynnydd Cronfeydd Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol eraill a gyfunwyd</li></ul>	Ch4
<ul style="list-style-type: none"><li>Cyfleoedd i Gydweithio</li></ul>	Ionawr - Mawrth 2023

\* Sylwch mai dyddiadau amcangyfrifedig yw rhain ac efallai y gallant newid